
**MEHEFIN 2025** | CYMRU

# Delweddau cam-drin plant yn rhywiol a grëir gan ddeallusrwydd artiffisial

## Canllaw hanfodol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc




NCA National Crime Agency

CEOP Education from the National Crime Agency

IWF Internet Watch Foundation

Working together to stop child sexual abuse online


Hwb®

# Pam mae'n rhaid gwybod am hyn

**Mae datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial (AI) wedi arwain at lawer o bethau cadarnhaol, gan gynnwys cefnogi dysgu, creadigrwydd, a dyfeisgarwch.**

Fodd bynnag, mae mwy a mwy o bryder ynghylch sut gellid camddefnyddio AI i greu ac i rannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM), a elwir yn AI-CSAM. **Mae AI-CSAM yn anghyfreithlon dan gyfraith y DU.**

**Yn eu** **hadroddiad ar gyfer 2024,** nododd yr Internet Watch Foundation (IWF) bod cynnydd trawiadol wedi bod yn y nifer o adroddiadau am AI-CSAM, a hynny ar fforymau gwe arferol a rhai ar y **'we dywyll' (dark web)**.



**Mae'n hollbwysig bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc yn deall y peryglon hyn er mwyn gallu eu hamddiffyn rhag niwed posibl ac i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau.**

Mae AI yn disgrifio systemau cyfrifiadurol sy'n efelychu deallusrwydd dynol wrth ddatrys problemau, wrth wneud penderfyniadau, ac wrth awtomeiddio tasgau. **Mae AI cynhyrchiol** yn fath o AI sydd â'r gallu i greu cynnwys newydd, fel testun, delweddau, fideos, a sain.

## Dyma rai enghreifftiau o fodelau AI:

- **Modelau sy'n seiliedig ar destun (Modelau Iaith Mawr - LLM)** fel ChatGPT, Microsoft Copilot, Google Gemini a Meta AI.





- **Modelau cynhyrchu delweddau,** lle mae delweddau AI yn cael eu creu o ddisgrifiad a roddir neu o ddelweddau eraill, megis Midjourney, DALL-E ac Adobe Firefly.


# Sut mae AI yn cael ei ddefnyddio i greu CSAM?

## Dyma rai o'r ffyrdd y gellid defnyddio AI i greu CSAM:

Gall AI gynhyrchu delweddau a fideos hynod realistig (neu **ffotorealistig** fel y cânt eu galw), o blentyn neu berson ifanc.


**Gallent wneud hyn trwy ystumio lluniau neu fideos sy'n bodoli eisoes neu trwy greu cynnwys cam-drin rhywiol o'r newydd.**



**Gall offer AI 'ddadwisgo'** plant neu bobl ifanc mewn delweddau digidol er mwyn creu delweddau cam-drin rhywiol.

Gellir bwydo system AI ar ddelweddau o gam-drin plant gwirioneddol i greu setiau newydd o fideos neu ddelweddau o'r goroeswyr.



# Ateb eich cwestiynau

## Sut mae gwybod a yw delwedd neu fideo wedi'i greu gan AI ai peidio?

**Nid eich cyfrifoldeb chi yw canfod sut crëwyd CSAM, nac ychwaith i ganfod a yw unrhyw ran ohono wedi'i greu gan AI.** Dylid dweud wrth yr heddlu ar unwaith am unrhyw ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar y we, yn ogystal â dweud wrth Berson Diogelu Dynodedig (neu ei gyfateb) eich lleoliad.


## Beth os nad yw'r AI-CSAM yn ffotorealistig?

**Mae'n anghyfreithlon, hyd yn oed os nad yw'r deunydd yn ffotorealistig.** Mae meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn yn drosedd, gan gynnwys delweddau a gynhyrchir gan AI sydd ddim yn cael eu hystyried yn ffotorealistig, gan gynnwys cartwnau, darluniau ac animeiddiadau (Adran 62 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).

## Beth os bydd person ifanc yn fy lleoliad yn creu AI-CSAM o'u cyfoedion?

Mae achosion wedi bod o bobl ifanc yn defnyddio AI i greu delweddau o'u cyfoedion yn noeth. Dylid trin hyn yn yr un ffordd ag unrhyw bryder diogelu CSAM arall.

Dywedwch wrth eich Person Diogelu Dynodedig (neu ei gyfateb) ar unwaith. Dilynwch weithdrefnau amddiffyn a diogelu plant eich lleoliad.



## A yw AI-CSAM yn anghyfreithlon yn y DU?

**Ydy, mae deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn anghyfreithlon bob tro, dim ots sut y caiff ei greu.** Mae adran 1 o Ddeddf Diogelu Plant 1978 yn ei gwneud yn drosedd i gymryd, i ddosbarthu, ac i feddu ar ffotograff anweddus neu ffug ffotograff o blentyn (unrhyw un o dan 18 oed).

Nid yw'r defnydd o AI yn lleihau'r effaith na'r niwed a achosir i ddioddefwyr. Mae'r niwed i ddioddefwyr yn sylweddol bob tro, waeth pa ddull a ddefnyddir i greu'r CSAM.

## Pam fyddai rhywun yn creu AI-CSAM?

Gallai troseddwyr ddefnyddio AI i gynhyrchu CSAM am sawl rheswm, gan gynnwys: y gred bod gwneud hynny yn llai niweidiol gan nad ydynt mewn cyswllt uniongyrchol â phlentyn; cred eu bod yn llai tebygol o gael eu dal; neu gred nad yw AI-CSAM yn achosi dioddefaint.

Gallent hefyd greu AI-CSAM i geisio gorfodi plant i anfon lluniau anweddus iddynt, neu i gael budd ariannol trwy fygwth rhyddhau'r delweddau oni chânt daliad (Blacmel Rhywiol ag Ysgogiad Ariannol).

Ambell dro, pan fo defnyddwyr dan 18 yn creu AI-CSAM, byddant yn ei ystyried yn 'jôc' neu'n 'gellwair', neu gallant wneud gyda'r nod o flacmelio neu niweidio plentyn arall. Efallai na fyddant yn gweld bod eu gweithredoedd yn anghyfreithlon ac yn gallu cael effeithiau difrifol a hirhoedlog ar y dioddefwr.


# Ymateb i ddigwyddiad

## Dylai unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud ag AI-CSAM gael ei drin gyda'r un lefel o ofal, brys ac ymateb diogelu ag unrhyw achos arall sy'n ymwneud â deunydd cam-drin plant yn rhywiol.

1. **Dywedwch** wrth eich Person Diogelu Dynodedig neu ei gyfateb.
2. **Dilynwch bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn a diogelu plant eich lleoliad.**
3. **Peidiwch â rhannu, lawrlwytho neu arbed y cynnwys -** hyd yn oed at ddibenion rhoi adroddiad. Dylai'r penderfyniad i edrych ar unrhyw ddelweddau gael ei wneud yn seiliedig ar farn broffesiynol y Person Diogelu Dynodedig (neu ei gyfateb). Ni ddylai'r Person Diogelu Dynodedig byth eu copïo, eu hargraffu, eu rhannu, eu storio na'u cadw; mae hyn yn anghyfreithlon. Am ragor o wybodaeth, darllenwch Ganllawiau Llywodraeth Cymru, **'Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc'.**
4. **Anogwch y person ifanc i beidio â dileu unrhyw beth** y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth, fel negeseuon, delweddau, fideos, enwau defnyddwyr a dolenni URL.
5. **Dywedwch** wrth y wefan, yr ap, neu'r rhwydwaith sy'n cynnal y deunydd.
6. **Rhowch wybod i'r Heddlu.** Ffoniwch 101, neu 999 os ydych yn credu bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl uniongyrchol.
7. **Ystyriwch gymorth lles.** Fel gydag unrhyw fath o gam-drin plant yn rhywiol, efallai y bydd angen cymorth ar ddioddefwyr i reoli'r effaith emosiynol a seicolegol. Dylech sicrhau bod dioddefwyr AI-CSAM yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael yn eich lleoliad ac yn lleol.


I gael rhagor o arweiniad ynghylch ymateb i ddigwyddiadau a dweud wrth wasanaethau statudol, (gan gynnwys yr heddlu) ewch i: **Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc**.

**Gall plant a phobl ifanc ddefnyddio Report Remove IWF a Childline i ddweud am unrhyw AI-CSAM sydd wedi'i greu a/neu ei rannu ar-lein.**




**Os yw plentyn neu berson ifanc mewn perygl uniongyrchol,** rhowch wybod i'r heddlu trwy ffonio 999.

# Rhagor o wybodaeth, canllawiau ac adnoddau



- Canllawiau Llywodraeth Cymru a Chyngor Diogelwch Rhyngrwyd y DU, '**Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc**'
- Canllawiau Llywodraeth Cymru '**AI cynhyrchiol: cadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein**'
- Canllaw **Communicating with Children** y Centre of Expertise on Child Sexual Abuse (CSA Centre), sy'n rhoi gwybodaeth a hyder i weithwyr proffesiynol siarad â phlant am gam-drin rhywiol.
- Mae **Sefydliad Marie Collins** wedi **cynhyrchu crynodeb ysgrifenedig o ddeddfwriaeth** Cymru a Lloegr ynghylch troseddau sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant.
- **Rhestr chwarae Generative AI ar Youtube** ar gyfer gweithwyr proffesiynol gan London Grid for Learning (LGfL) - yn cynnwys dirwedd ar hyn o bryd o ran niwed a'r hyn y mae angen i ysgolion ei wybod/ei wneud.
- Cyhoeddiad **Viewing Generative AI and children's safety in the round** yr NSPCC
- Adroddiad IWF **How AI is being abused to create child sexual abuse imagery**
- Cyhoeddiad **guide to managing incidents of problematic or harmful sexual behaviour** yr NSPCC

# Geirfa

**Y We Dywyll / Dark Web:** Rhwydwaith cyfrinachol a chyfres o wefannau sydd wedi'u cuddio rhag y cyhoedd, ac sydd ddim i'w cael trwy ddefnyddio peiriannau chwilio arferol fel Google.

**Ffotorealistig:** Delweddau sydd mor realistig nad oes modd gwahaniaethu rhyngddynt a ffotograffau.

**AI Cynhyrchiol:** Y defnydd o AI i greu cynnwys o'r newydd gan ddefnyddio data sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys testun, delweddau, sain, fideos, a chynnwys arall.

**Modelau Iaith Mawr (LLM):** Math o raglen AI sy'n gallu adnabod a chynhyrchu testun iaith ddynol. Maent yn gweithio trwy ddadansoddi setiau mawr o ddata iaith.

CEOP — Education from the National Crime Agency

**Mae rhaglen Addysg CEOP yn cynnig amrywiaeth o adnoddau am ddim i weithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr a phobl dan 18 oed ar fygythiad cam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Ewch i ceopeducation.co.uk i ddysgu mwy.**